

# ADFYWIO CYMRU: MANIFFESTO SENEDD 2026 WWF CYMRU

Nod Hawlfraint © Gareth Nixon - diving otter

# A FYDD Y SENEDD NESAF YN SEFYLL DROS HINSAWDD, NATUR A PHOBL – NEU YN SIOMI CENEDLAETHAU'R DYFODOL?

Mae Cymru'n haeddu economi ffyniannus, aer glân, dŵr heb lygredd a chyflenwad dibynadwy o fwyd maethlon, fforddiadwy. Ond nid dyma'r byd sydd ohoni, ac mae natur yn hanfodol i gyflawni'r rhain ac i sicrhau ein goroesiad. Wrth inni golli'r nifer fwyaf o rywogaethau a chynefinoedd erioed, mae 1 mewn 6 rhywogaeth mewn perygl o ddifodiant. Y prif reswm dros y golled yng Nghymru yw ein dulliau cynhyrchu bwyd, mae'n amser am drawsnewidiad.

Teimlir effeithiau newid hinsawdd yng Nghymru eisoes - mae mwy o lifogydd, sychder, tanau gwyllt a diffyg cynyddol o ran diogeledd bwyd yn effeithio ar ddulliau cynhyrchu bwyd a chostau byw i deuluoedd. Mae mwy na 273,000 o gartrefi yn wynebu risg llifogydd, ac mae tywydd eithafol yn bygwth ein gallu i dyfu a chaffael bwyd.

Mae pobl yn datgysylltu'n gynyddol o darddiad eu bwyd, ac rydym yn dibynnu'n ormodol ar fewnforion i ddiwallu anghenion dietegol sylfaenol. Rhaid i broses bontio teg ddigwydd ar frys er mwyn cefnogi'r cymunedau a effeithiwyd arnynt fwyaf, a chreu cyfleoedd newydd i bawb.

## NID YW'R STATUS QUO YN OPSIWN

Mae'r byd yn wynebu her driphlyg: atal newid hinsawdd, gwrthdroi colli natur, a diwallu anghenion maeth pobl. Mae cysylltiadau sylfaenol rhwng y tri maes hyn.


Os ydym yn ateb yr 'her driphlyg' hon, byddwn yn adfer natur, yn ei amddiffyn i genedlaethau'r dyfodol, ac yn creu swyddi gwyrdd newydd, **yn diogelu dyfodol cynhyrchu bwyd, yn cryfhau ein gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd, ac yn mynd i'r afael â'r cyfraddau gordewdra a thlodi bwyd sy'n cynyddu.**

Mae'n hollbwysig wrth ymateb i'r her driphlyg ein bod ni'n cydnabod bod yr hyn a wnawn ar y tir yn effeithio ar iechyd ein hafonydd a môr. Felly mae'n rhaid inni ystyried y rhain gyda'i gilydd. Ac yn hollbwysig, rhaid i ddatrysiadau'r her driphlyg gefnogi anghenion maeth ac ehangach y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno.
Mae WWF eisoes yn peilota'r weledigaeth integredig hon trwy ein rhaglen 'Cyflawnwedd' yn Sir Benfro - glasbrint ar gyfer trawsnewid y ffordd rydym yn rheoli tir, afonydd a moroedd. .

## NID YW EIN GWLEIDYDDION WEDI GWEITHREDU DIGON

Mae'r 2020au yn ddegawd rhyngwladol cydnabyddedig o weithredu dros natur a hinsawdd, ond mae llywodraethau olynol wedi **methu cyfleoedd hollbwysig** i wneud cynnydd, gan **dorri addewidion,** oedi ar **newidiadau** neu eu **gwanhau**. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd Annibynnol (ICCC) wedi mynegi pryder dro ar ôl tro ynghylch arafwch y newid sy'n golygu nad yw Cymru ar y trywydd cywir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 58% erbyn 2030, allyriadau sero net erbyn 2050, a rhoi terfyn ar golli natur a'i wrthdroi erbyn 2030, yn unol â chytundebau bioamrywiaeth byd-eang.

### DIRYWIAD BIOAMRYWIAETH BYD-EANG ERS 1970




## TYMOR SENEDD 2026 YW EIN CYFLE OLAF I GWRDD A'N HYMRWYMIADAU 2030

Ar y tir, rhaid cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn cytgord â natur, adfer priddoedd wedi'u diraddio, plannu mwy o goed a gwella gwrychoedd, ac atal llygryddion rhag mynd i afonydd a llifo i'n moroedd. Yn ein moroedd, rhaid inni adfer ein cynefinoedd morol a chefnogi ein diwydiant dyframaeth sy'n tyfu.

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n mewnforio swm mawr o soia ar gyfer bwyd anifeiliaid ac olew palmwydd ar gyfer bwyd - ac mae'r ddau wedi'u cysylltu â datgoedwigo a cham-fanteisio. Trwy symud at brosesau cynhyrchu cynaliadwy sy'n ystyriol o natur, gallwn roi'r gorau i fwydo niwed byd-eang a derbyn cyfrifoldeb dros ein heffaith fyd-eang.

## GWEITHREDU SYDD EI ANGEN AR BOBL A NATUR, NID ADDEWIDION

Yn yr etholiad nesaf, rhaid i bob plaid addo i weithredu'n feiddgar ac yn ystyrlon. Mae 76% o'r cyhoedd yng Nghymru o'r farn y dylai'r llywodraeth bresennol a llywodraethau'r dyfodol gymryd mwy o gamau gweithredu i fynd i'r afael â cholli natur. Hefyd, mae wedi'i nodi'n glir yng Nghynllun Natur y Bobl a luniwyd gan leisiau dinasyddion: mae pobl eisiau newid.

Rydym yn galw am lywodraeth sy'n arwain yn ddewr. Sy'n gweithredu, nid yngan geiriau caredig. Mae dyfodol Cymru'n dibynnu arni.

### DEFNYDDIR TIR 40% O FAINT CYMRU MEWN GWLEDYDD TRAMOR BOB BLWYDDYN I DYFU SAITH NWYDD YN UNIG I'W MEWNFORIO I GYMRU.

Mae bron traen y tir hwn mewn gweledydd a risg dirifol o gamfanteisio cymdeithasol, datgoedwigo a cholli cynefinoedd.




# SWYDDI AC ECONOMI GWYRDDACH

Mae canfyddiadau adolygiad Dasgupta yn glir: natur yw sail ein heconomïau a'n ffyniant. Mae pawb ohonom yn dibynnu ar fyd natur  - ar gyfer ein bwyd, dŵr, aer a deunyddiau crai. Ond mae ein dulliau presennol yn methu â darparu'r tirweddau amlswyddogaethol sydd eu hangen ar Gymru i gyflawni dros bobl, natur a hinsawdd.

Rhaid i Gymru ymateb trwy drawsnewid ei heconomi a'i phrosesau penderfynu, er mwyn iddynt flaenoriaethu canlyniadau llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, trwy feithrin mwy o allu i wrthsefyll ysgytiadau allanol a bygythiadau hirdymor. Un ysgytiad ydi effaith newid hinsawdd, gyda digwyddiadau tywydd eithafol megis sychder a llifogydd yn costio degau o filiynau o bunnoedd yn flynyddol i ffermwyr Cymru. Ymhellach, darganfu yr Energy and Climate Intelligence Unit bod **effaith newid hinsawdd yn 2022-23 wedi ychwanegu £361 ar gyfartaledd i filiau bwyd cartref yn y DU**. I atal ysgytiadau o'r fath, a mynd i'r afael â chostau byw, rhaid i ni fanteisio ar bŵer datrysiadau seiliedig ar natur er mwyn adeiladu gwytnwch i'r effeithiau a sicrhau bod gwerth natur wrth galon ein heconomi.

Ceir twf swyddi sylweddol yn seiliedig ar natur mewn meysydd fel cadwraeth, seilwaith lleol, cadwyni cyflenwi (e.e. hybiau bwyd), rheoli tir yn gynaliadwy, ynni, ôl-osod tai, addysg natur, ac ymgysylltu cymunedol. Gallai buddsoddi yng Ngwasanaeth Natur Cymru ddarparu cyfleoedd uwchsgilio ac ailsgilio mewn cadwraeth ac adfer natur. **Gallai greu 7,000 o swyddi'n seiliedig ar natur dros y ddegawd nesaf.**

Yn gyntaf, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, ac integreiddio arian cyfalaf preifat yn well er mwyn cynyddu'r gwariant traws-lywodraethol ar natur mewn termau real, er mwyn diwallu'r angen blynyddol am £594 miliwn, ar amcangyfrif.



**POTENSIAL GAN GYMRU I GREU 60,000 O SWYDDI GWYRDD**

(Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025)



**MAE EFFEITHIAU TYWYDD EITHAFOL A FWYDIR GAN NEWID HINSAWDD YN COSTIO DEGAU O FILIYNAU O BUNNOEDD I'R SECTOR AMAETHYDDOL YNG NGHYMRU BOB BLWYDDYN:**

**AMCAN O WERTH COLLEDION Y SECTOR FFERMIO YN 2018:**

| | |
|---|---|
| £23.8m | ŴYN A GOLLWYD |
| £151m | BWYD DA BYW YCHWANEGOL A BRYNWYD OHERWYDD EFFAITH SYCHDER A LLIFOGYDD AR DWF CNYDAU A PHORFA |
| £175m | CYFANSWM EFFAITH COSTAU BWYD AC ŴYN A GOLLWYD AR Y SECTOR ANIFEILIAID CNOI CIL. CYFWERTH Â 9% O'R HOLL ALLBWN AMAETHYDDOL |
| £4m | GOSTYNGIAD MEWN CNYDAU |



Nod Hawlfraint © Alistair James

## 3 CHAM GWEITHREDU BRYS AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

1. Darparu Cynllun Cyllid i Natur a chynnal Prawf Sero Net a Natur newydd ar gyllidebau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y bydd y gwariant yn rhoi Cymru ar ben ffordd i gyrraedd targedau hinsawdd a natur.

2. Gweithio gyda sefydliadau ariannol a chadwyni cyflenwi i ddenu cyllid preifat er mwyn lliniaru risg ariannol cydnabyddedig y broses o bontio at ffermio sy'n ystyrlon o natur, gan gefnogi adfer natur, y gallu i wrthsefyll hinsawdd a gwella cydnerthedd busnes ffermydd. Hefyd, dylid dylunio a rheoleiddio marchnadoedd preifat ar gyfer natur a charbon, er mwyn gwobrwyo dulliau cynhyrchu sy'n ystyrlon o natur a gwasanaethau ecosystem.


3. Cryfhau Gwasanaeth Natur Cymru i wella eco-llythrennedd, adeiladu sgiliau a gallu, a chysylltu pobl a chymunedau â chyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o adfer natur, i gael mynediad at swyddi gwyrdd, ac i elwa o'r broses bontio werdd.

# AFONYDD GLANACH

Mae afonydd Cymru mewn cyflwr trychinebus. Gwenwynwyd llawer o'n dyfrffyrdd gan lygredd, ac mae bioamrywiaeth dŵr croyw yn dioddef. Mae niferoedd eogiaid a sewin (sy'n mudo rhwng afonydd a'r môr) yn plymio, a chollwyd 70% ohonynt yn ystod y degawd diwethaf. Bellach, mae pob afon ag eogiaid ynddynt yn cael eu hadnabod fel y rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i adfywio ein hafonydd. Mae hyn yn golygu gweithredu'n gyson i adfer ecosystemau ac i atal llygredd afon o bob math, gan ganolbwyntio ar y ddwy ffynhonnell fwyaf ohono: amaethyddiaeth a charthion.

Mae'r rhan fwyaf o lygredd ffosfforws a nitrogen mewn afonydd, a 93% o allyriadau amonia, yn tarddu o ddŵr ffo amaethyddol ar ffermydd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i haneru'r llygredd sy'n deillio o golli gormod o faethynnau erbyn 2030, fel rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. **Rhaid i Gymru chwarae ei rhan yn y gwaith i gyflawni'r ymrwymiad hwn ac adfer iechyd afonydd Cymru'n llawn.**




## 3 CHAM GWEITHREDU BRYS AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

**1** Defnyddio'r Bil Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) newydd i bennu **targedau penodol**, yn unol â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, er mwyn:

- Lleihau llygredd i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth drwy o leiaf haneru'r maethynnau gormodol a gollwyd i'r amgylchedd.
- Sicrhau bod 100% o afonydd a chyrff dŵr eraill yn cael eu monitro'n weithredol bob blwyddyn erbyn 2030.
- Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r targedau hyn sy'n cefnogi dull lefel dalgylch, gyda chyllid ac atebolrwydd priodol.

**2** **Cynyddu'r gwaith o fonitro a gorfodi rheoliadau monitro llygredd** yn sylweddol, **gan gynnwys dwyn achosion yn erbyn yr holl droseddwyr difrifol a'r troseddwyr rheolaidd.** Yn ogystal, rhaid cael trosolwg gwell o weithgareddau mewn dalgylchoedd afonydd trwy:

- Gynnwys yr holl ffermio da byw mewnbwn uchel-allbwn uchel yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
- Gostwng y trothwy ar gyfer cynnwys unedau dofednod yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
- Cyflwyno gofynion effeithiol, gan gynnwys yn y system cynllunio, i atal effaith gronnol nifer o unedau da byw.

**3** **Defnyddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd afonydd** drwy:

- Ymestyn ac adfer cynefinoedd glan afon er mwyn lleihau llif llygryddion i afonydd ac i greu amddiffynfeydd ychwanegol rhag llifogydd.
- Mynnu bod ffermwyr yn mabwysiadu arferion ffermio sy'n adfer iechyd priddoedd.
- Sicrhau bod y gweithgareddau y mae'r cynllun yn talu amdanynt yn gweithio tuag at gyflawni'r targedau a bennwyd yn y Bil Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth).


Nod Hawlfraint © Avonydd Cymru - Polluted River

# MOROEDD IACHACH

Mae ein moroedd a'n harfordir yn rhan enfawr o fywyd Cymru ac yn rhan bwysig o'n heconomi. Mae ein bywyd morol toreithiog yn cynnwys poblogaethau adar môr, morloi a dolffiniaid sy'n bwysig yn fyd-eang. Mae ein moroedd yn cefnogi diwydiannau hollbwysig fel pysgota, twristiaeth, ynni ar y môr a morgludiant, ac maent wedi'u hymwreiddio'n ddwfn yn ein treftadaeth ddiwylliannol. **Bydd adfer iechyd ein moroedd yn dda i gymunedau, bywyd gwyllt a hinsawdd.**

Y gwir amdani yw, wedi degawdau o lygredd o'r tir, gweithgareddau anghynaliadwy ar y môr, ac effeithiau newid hinsawdd, mae ein hamgylcheddau morol mewn cyflwr enbyd.

Mae tystiolaeth newydd yn nodi'r rhan enfawr mae ein moroedd yn ei chwarae yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Caiff meintiau enfawr o garbon eu cipio a'u dal mewn ecosystemau morol, a elwir yn 'gynefinoedd carbon glas'. Mae'r rhain yn cynnwys gwaddodion ar wely'r môr, morwellt, morfeydd heli a riffiau wystrys. Yn drasig, mae'r cynefinoedd hollbwysig hyn yn diflannu. **Collwyd hyd at 95% o forwellt a 85% o forfeydd heli ar draws y DU.**

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau beiddgar i wella iechyd a dyfodol ein cynefinoedd morol.

## 3 CHAM GWEITHREDU BRYS AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

1. **Adfer ac amddiffyn cynefinoedd carbon glas pwysig** drwy:
   - Lunio rhaglen adfer morol flaengar a gefnogwyd gan ymrwymiadau cyfreithiol a buddsoddiad.
   - Ymwreiddio anghenion cymunedau lleol, ac atal llygredd o'r tir ac afonydd rhag llifo i'r môr.
   - Rhoi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Rwydwaith Morwellt Cymru ar waith.

2. Llunio polisi galluogi i **gyflymu a gwella'r gwaith o adfer ac amddiffyn cynefinoedd morol** ledled Cymru drwy:
   - Ddileu'r rhwystrau i waith adfer cynefinoedd morol yn y system drwyddedu morol.
   - Ychwanegu morwellt a morfa heli i Restr Nwyon Tŷ Gwydr Cymru er mwyn olrhain a monitro allyriadau.

3. **Cwblhau'r rhwydwaith o Barthau Cadwraethol Morol** o amgylch Cymru ar frys. Rhaid inni amddiffyn yr holl safleoedd morol rhag gweithgareddau dinistriol sy'n niweidio cynefinoedd carbon glas ac yn bygwth bywyd y môrl. Rhaid cefnogi hyn trwy wella'r gwaith o gynllunio'n strategol yr holl weithgareddau yn ein moroedd drwy:
   - Ystyried ardaloedd carbon glas ac ardaloedd adfer cynefinoedd yn y gwaith cynllunio morol.
   - Cynnal asesiadau effaith carbon glas a chyfyngu ar weithgareddau sy'n niweidio ardaloedd allweddol.




Nod Hawlfraint © Lewis Jefferies / WWF-UK



Nod Hawlfraint © WWF Cymru Nantelyd Aled Llywellyn

# BWYD A FFERMIO TECACH

Rhaid cefnogi ffermwyr a diwydiannau bwyd môr er mwyn iddynt adfer natur a mynd i'r afael â newid hinsawdd, tra'n darparu bwyd maethlon i Gymru.

**Defnyddir bron 90% o dir Cymru, a llawer o'n moroedd, i gynhyrchu bwyd.** Er hynny, ychydig iawn o'r bwyd hwnnw sy'n cael ei fwyta yng Nghymru. Mae ffermydd teuluol wedi treulio degawdau'n gweithio'n unol â pholisïau amaethyddol a wnaeth troi'r fantol at gynhyrchiant dwys sydd angen marchnadoedd allforio, ar draul bwyd a allai diwallu anghenion maeth cartref.

**Rydym yn gweld mathau newydd o ddyframaeth yn datblygu ar y môr (e.e. ffermio gwymon a physgod cregyn). Mae gan wymon y potensial i fod gwerth** o leiaf £105 miliwn y flwyddyn erbyn 2030, gan greu hyd at 1,000 o swyddi yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Hefyd, mae gwymon yn llawn maethynnau. Gellir ei ddefnyddio yn lle pecynnau plastig ac fel gwrtaith naturiol a bwyd i dda byw i leihau effaith amaethyddiaeth ar yr amgylchedd.

Mae gan wymon y potensial i frwydo yn erbyn newid hinsawdd a chreu cynefin ar gyfer bywyd morol.

Er mwyn i Gymru gefnogi sectorau newydd, amddiffyn ffermydd teuluol a gwella diogelwch maeth, gan wella ei gallu i wrthsefyll newid hinsawdd a cholli natur, rhaid i bolisi Llywodraeth Cymru newid.

**Rhaid i'r llywodraeth nesaf fod â'r cryfder i ddiwygio'r system fwyd ehangach**, i ailgysylltu'r bwyd a gynhyrchir yng Nghymru gyda'n hanghenion maeth. Nid ydym yn chwilio am hunanddigonedd. Fodd bynnag, rhaid i gynhyrchiant bwyd domestig wneud mwy i wella diogelwch maeth, lleihau cyfraddau tlodi bwyd, a rhoi cynnig gwell i ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd eraill.



**GALL FFERMIO GWYMON A PHYSGOD CREGYN GREU HYD AT 1000 O SWYDDI ERBYN 2030**

## BUDDION AMAETHECOLEG

Amaethecoleg yw gwyddor ac arfer sy'n gwella systemau bwyd a ffermio, yn cefnogi ffermio adferol, ac yn rhoi pobl – ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd, dinasyddion – wrth wraidd datrysiadau.



# 3 CHAM GWEITHREDU BRYS AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

**1** Cydnabod rôl economaidd ffermio gwymon a physgod cregyn gan **dyfu'r diwydiant dyframaeth atgynhyrchiol** trwy Gynllun Cenedlaethol cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- Dileu rhwystrau trwyddedu morol
- Sefydlu mentrau ar gyfer datblygu'r farchnad; hyfforddiant ac addysg (gan gynnwys sefydlu Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol).
- Cynnig cymhellion ariannol fel rhyddhad treth, rhaglenni cyngor busnes a mentora.

**2** Defnyddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i **gymell dulliau ffermio sy'n ystyrlon o natur a hinsawdd, a'u gwneud yn ofynnol lle bo angen** (fel systemau organig, atgynhyrchiol, amaethecolegol neu amaeth-goedwigaeth) drwy:

- Sicrhau bod holl haenau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith yn 2026, a bod y gwaith o bontio i'r cynllun yn llawn wedi'i gwblhau erbyn 2030.
- Ymrwymo o leiaf 50% o gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'r Haen Ddewisol erbyn 2030.
- Cyflawni argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd o ran plannu coed yn genedlaethol ac ailymweld â thargedau gorchudd coed gorfodol ar lefel fferm os na fydd y cyfraddau plannu'n ôl ar y trywydd cywir yn 2028.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn datrysiadau'n seiliedig ar natur sy'n helpu i adeiladu'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd ac amddiffyn ffermwyr a chymunedau rhag effeithiau llifogydd a sychder.
- Cynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau cyngor, trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau ar gyfer amaethyddiaeth trwy gyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid.
- Dileu bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd fel soia a phalmwydd, sy'n gysylltiedig â datgoedwigo a throsi cynefinoedd mewn gwledydd tramor.

**3** Datblygu **Cynllun Cydnerthedd Bwyd Cenedlaethol sy'n meithrin cysylltiadau newydd rhwng cynhyrchu a defnyddio**, a chreu'r nifer mwyaf posibl o gyfleoedd caffael lleol a chenedlaethol ar gyfer cynnyrch o Gymru drwy:

- Bennu targed i ffermio o leiaf 20% o ffermdir Cymru yn organig erbyn 2030.
- Cynyddu'n sylweddol y defnydd a wneir gan arlwyo yn y sector cyhoeddus o ffrwythau a llysiau organig a gynhyrchir yng Nghymru - i gyrraedd 75% o'r lefel a argymhellir gan y Canllaw Bwyta'n Dda ar gyfer bwyta ffrwythau a llysiau erbyn 2030.
- Hyrwyddo newid dietegol yn unol â diet Byw'n Dda WWF, sy'n hyrwyddo dietau cynaliadwy, iach sy'n ystyrlon o natur.
- Gorfodi cyrff cyhoeddus i gaffael bwydydd wedi'u hardystio'n foesegol, gan gynnwys Masnach Deg, olew palmwydd cynaliadwy, organig ac wedi'i besgi ar borfa, proteinau planhigion amrywiol, a lleihau bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth.
- Integreiddio bwyd a dietau i ddyletswyddau, amcanion a dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu systemau bwyd lleol cydnerth trwy ehangu ar hybiau bwyd a mentrau dan berchnogaeth gymunedol, a rhoi'r Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy rhwng llywodraeth leol a chymunedau ar waith fesul cam. Sicrhau mynediad cymunedol gwell/cyfleoedd gwell i brynu tir, fel rhandiroedd, gerddi cymunedol, ffermydd a pherllannau.



Nod Hawlfraint © WWF Cymru Veg Farmer Nantclyd Aled Llywellyn




Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | www.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®”WWF”. Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

wwf.wales
wales@wwf.org.uk
@wwfcymru